# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Donna Watts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 26 Tachwedd 2020**

**PRESENNOL:**
**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Griff Morris
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Mary Jones

**Cyngor Sir**
Y Cynghorydd Rheinallt Puw

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Linda Brown

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Godfrey Northam
Y Cynghorydd Michael Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Einir Williams.
   **Ymddiheuriadau** –gan y Cyngr. Pearl Evans a Paul Rowlinson

**2. Datgan Diddordeb**
Eitem 6-Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes.

**3. Materion Brys**
Dim i'w drafod.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2020.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1** Arwyddion newydd Ogwen Bank – cais apêl wedi ei wrthod, felly bydd angen i'r arwyddion cael eu tynnu lawr. Dal i fyny ar hyn o bryd.
**5.2** Cyffordd A5 ger Copa – problem gweledigaeth gan bod coeden wedi gordyfu yn gardd 87 Stryd Fawr. Y coed wedi eu torri, ond dal yn rhy uchel. Y Clerc i holi unwaith eto.
**5.3** Lloches bws Sgwar Rachub a Braichmelyn – caniatad wedi ei dderbyn ar gyfer gosod lloches yn Sgwar Rachub. Y Clerc yn trafod gyda Cyngor Gwynedd ynglŷn a prynu lloches ail-law. Nid oes angen caniatad i osod un newydd ger Braichmelyn, dim ond dod o hyd i gontractwr sy'n gymwys i wneud y gwaith.
**5.4** Ffordd Coetmor, cyflwr y lôn yn ofnadwy, yn enwedig wrth y llyfrgell. Llawer o dyllau angen eu llenwi. Gwaith 'patcho' wedi ei wneud, ond ddim digon da.
**5.5** Stryd Fawr, Rachub – o Capel Carmel at y Sgwâr. Y ffordd angen sylw. Dim ymateb hyd yn hyn. Angen holi eto.
**5.6** Rhos y Nant – dŵr yn sefyll, angen sylw i'r draeni. Dim ymateb hyd yn hyn.

**5.7** CCTV Stryd Fawr – y Cyng. Einir Williams wedi holi am ddiweddariad. Dim byd pellach wedi digwydd. Y Clerc i ddal ati gyda'r ymholiadau.
**5.8** Parc Meurig – llechi gyda cerfluniau cymeriadau Llyfr Mawr y Plant. Angen eu paentio/adnewyddu. Y Cyng. Rheinallt Puw i'w drafod gyda swyddog LleChi. Ar y gweill.
**5.9** Arwyddion stryd – arwydd ar gyfer Sgwar Buddug wedi ei gam-sillafu ac y Cyngor yn awyddus i gael arwydd ar gyfer Lôn Pâb ac Allt Gaffi hefyd. Y Clerc i holi unwaith eto.

**6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**
Dim cyfarfod wedi bod.

**7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr**
**Grŵp Llywio Cefnfaes** – y Cyng. Godfrey Northam wedi adrodd yn ôl am y cyfarfod a rhoi diweddariad i bawb am y prosiect.

**8. Maes parcio Gerlan**
Y diweddaraf gyda'r prosiect – y cais cynllunio wedi ei gyflwyno i Gyngor Gwynedd a'r cais am fenthyciad wedi ei gyflwyno i'r PWLB.

**9. Llys Dafydd**
Cyflwynwyd bapur gan tîm Dyffryn Gwyrdd gyda eu syniadau am sut i ddatblygu'r safle, ac eisiau cyd-weithio hefo'r Cyngor Cymuned i adfywio'r safle. Penderfynwyd yn unfrydol i dderbyn y cynnig.

**10. Canolfan Cefnfaes/Clwb Ieuenctid**
Cais gan Cynan Jones, Rheolwr Prosiect Cefnfaes am gyllid i beilota nosweithiau gyda bobl ifanc y pentref yn y 'gofod gwneud' yn Canolfan Cefnfaes. Penderfynwyd bod y Cyngor yn fodlon ariannu'r cynllun.

**11. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Tachwedd 2020'
**11.1** E-byst gan Cyngor Gwynedd a'r Cyng. Rheinallt Puw – ynglŷn a toriadau gwair ym Mynwent Coetmor. Derbyniwyd pris am gasglu a gwaredu'r gwair. Y Cyngor i ystyried y costau ychwanegol.
**11.2** Llythyr gan berchennog Bro'r Awen, Bethesda – pryderon y tenantiaid am y parc sglefrio ger bron. Y Clerc i ymateb i'r llythyr ac hefyd cysylltu gyda Rob Parsonsons i'w hysbysu o'r cwynion hefyd.
**11.3** E-bost gan Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd - ynglŷn a cyfnod ymgysylltu anffurfiol ar addysg ôl-16 Arfon. Rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd wedi ei atodi. Pawb sy'n medru i fynychu a'i drafod yn y cyfarfod nesaf. Angen i'r Cyngor ymateb erbyn 22 Rhagfyr 2020.
**11.4** E-bost gan Cyngor Gwynedd-Gwasanaeth Traffig a Phrosiectau – dirymu llinellau melyn dwbl yn Pen y Clwt, Gerlan. Dim gwrthwynebiad.
**11.5** Ebost gan Llywodraeth Cymru – newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru ynghylch prynu gorfodol. Nodwyd yr ohebiaeth.
**11.6** Ebost gan J Davies – pryderon am or-yrru yn Braichmelyn. Y Clerc i ymateb i'r e-bost ac i holi Cyngor Gwynedd i osod arwyddion.
**11.7** E-bost gan Llywodraeth Cymru – ymgynghoriad – Rheoliadau ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Nodwyd yr ohebiaeth.

**12. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
<u>**Penderfyniadau**</u>

**C19/1203/13/DT**
Heulwen, 23 Ystad Coetmor, Bethesda

Cais ar gyfer codi estyniad deulawr gyda tô grib yng nghefn yr eiddo
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0018/13/LL**
Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda

Codi 7 annedd preswyl ar gyfer yr henoed ynghyd â llecynnau parcio a man troi.
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0716/13/LL**
1 Lon Sarnau, Bethesda

Cais ar gyfer trosi modurdy i anecs is-raddol i'r eiddo adnabyddir fel '1 Lon Sarnau, Ffordd y Stesion, Bethesda'
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0152/13/LL**
4 Rhes Ogwen

Cais ar gyfer trosi is-lawr eiddo i uned breswyl hunan gynhaliol ynghŷd a rhannu modurdy cefn i fodurdy a phorth car
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0622/13/LL**
Pen Bre Ffordd Y Mynydd, Rachub

Creu croglofft o fewn yr annedd bresennol ynghŷd a gosod ffenestri tô
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0819/13/DT**
6 Ffordd Gerlan, Gerlan

Estyniad i'r gegin presennol a chreu balconi uwchben yr estyniad
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C20/0770/13/DT**
9 Stryd Gray, Carneddi, Bethesda

Cais ar gyfer codi estyniad unllawr i gefn eiddo
**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau.

**C20/0675/13/AC**

| | |
|---|---|
| 13 Llwyn Bedw, Rachub | Diwygio amod 2 ac amod 3 o ganiatad cynllunio C20/0285/13/LL<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau. |

**<u>Ceisiadau</u>**

**C20/0878/13/LL**

| | |
|---|---|
| Becws Cae Groes, Ffordd Tanybwlch, Rachub | Estyniad llawr cyntaf i'r becws<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad, cefnogi datblygiad y cwmni. |

**C20/0805/13/LL**

| | |
|---|---|
| Tir ger Gwernydd, Gerlan | Cais ar gyfer adeiladu maes parcio<br>**Penderfyniad:** Datgan diddordeb. |

**13. Taliadau**

<u>Awdurdodwyd y canlynol</u>

| | |
|---|---|
| Cyflogau (Tachwedd) | £302.27 |
| CThEM (Tachwedd) | £75.60 |
| C Jackson –cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus | £1978.25 |
| Scottish Power– trydan Gorffwysfan (Ion-Hyd) | £179.45 |
| Cyngor Gwynedd-Archwilio Mewnol | £264.00 |
| Lady Haig – torch Sul y Cofio | £36.00 |
| Scottish Power – golau Nadolig | £26.68 |
| Scottish Power – golau Nadolig | £30.47 |